# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 03-07 (p5)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 1Mawrth 2007
### Amser y cyfarfod: 9:00 am – 12:10 pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

## Amgueddfa Cymru : Papur cefndir

Mae ein Canmlwyddiant yn gyfnod o edrych yn ôl ar y modd y mae'r Amgueddfa wedi datblygu er iddi gael ei sefydlu ganrif yn ôl, gan ddathlu'n llwyddiannau ac edrych ymlaen at y dyfodol a thuag at weithredu'n Gweledigaeth i greu 'Amgueddfa Ddysg o Safon Fyd-eang'. Dros y deng mlynedd diwethaf, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac ystod o noddwyr a chefnogwyr eraill, rydym wedi cwblhau'n Strategaeth Ddiwydiannol a datblygu amrywiaeth o ddulliau i adrodd hanes Cymru fel cenedl ddiwydiannol gyntaf y byd. Mae hyn i'w weld yn amlwg yn y gwaith o adnewyddu Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis ac Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach Felindre. Rydym wedi cymryd drosodd y gwaith o redeg Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon, gan ddatblygu'r profiad a gaiff ymwelwyr yno'n sylweddol, ac wedi agor Amgueddfa Genedlaethol y Glannau newydd sbon yn 2005, mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe.

Drwy broses ddiweddar ein 'Gweledigaeth', rydym wedi sicrhau bod Amgueddfa Cymru'n barod i adeiladu ar lwyddiant y Strategaeth Ddiwydiannol a wynebu her yr 21ain ganrif. Yn ystod y broses cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda'n rhanddeiliaid presennol, a chyda rhai na fyddai fel arfer yn ymwneud â gwaith yr Amgueddfa. Rydym wedi cynnwys amcanion a themâu'r Weledigaeth oddi mewn i broses strategol tymor hir yr ydym yn gobeithio ei defnyddio i ehangu capasiti aelodau eraill o deulu'r Amgueddfeydd Cenedlaethol, ar yr amod bod arian ar gael.

### Dyma rai cynlluniau allweddol ar gyfer y dyfodol:

#### Datblygu Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i fod yn Amgueddfa Hanes Natur Cymru (ar y llawr gwaelod) ac yn Amgueddfa Gelf Cymru (ar y llawr cyntaf).

- Bydd arddangosfa 'Gwreiddiau' yn portreadu hanes Cymru o'r oes gynharaf hyd y 16eg ganrif, gan ganolbwyntio ar ba mor berthnasol yw'r hanes i'n bywyd cyfoes. Bydd yr arddangosfa hon yn agor ym mis Rhagfyr yn rhan o ddathliadau'r Canmlwyddiant, ac yn ail-arddangos ein casgliadau archaeolegol am y tro cyntaf er dros 30 mlynedd. Bydd yn cael ei chynnal dros dro yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (hyd nes y bydd yn symud i Sain Ffagan ac yn cael ei chynnwys yn rhan annatod o Amgueddfa Werin Cymru - gweler isod).
- Byddwn yn creu Amgueddfa Gelf Cymru ar y llawr cyntaf drwy ail-arddangos y casgliadau celf yn Adain y Dwyrain a'r Bloc Canolog, a thrwy ddatblygu Adain Uwch y Gorllewin yn lle

i arddangos celf fodern a chyfoes. Bydd hyn yn creu 40% o le ychwanegol i arddangos celf ar y safle.
- Creu Amgueddfa Hanes Natur Cymru ar y llawr gwaelod, gan gynnwys both gwyddoniaeth ‘newid meddwl’ ar yr islawr a thrawsnewid y Brif Neuadd i fod yn fan cyfarfod wedi’i diffinio’n glir ac sy’n croesawu ymwelwyr, gyda darpariaeth fanwerthu llawer gwell.

### Datblygu Amgueddfa Gelf Cymru

Ystyrir y dasg o gyfuno’r holl weithiau celf ar lawr cyntaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ateb tymor canolig, a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatrys materion tymor hir sy’n gysylltiedig ag arddangos casgliadau celf rhyngwladol a chasgliadau celf Cymru yn y dyfodol.

### Datblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

- Bydd y gwaith o ailarddangos Oriel Un ar y thema ‘hunaniaeth’ yn cynnwys deunydd archaeolegol ac yn gam cyntaf tuag at greu amgueddfa hanes Cymru. Bydd yr arddangosfa’n agor yn nhymor y Gwanwyn yn rhan o ddathliadau’r Canmlwyddiant.
- Er mwyn canfod y dull mwyaf effeithiol o arddangos ein casgliadau i ymwelwyr, byddwn yn defnyddio ymagwedd ymgynghorol ac arbrofol i ail-greu cysyniad yr holl safle fel amgueddfa hanes, gan gynnwys ail-ddehongli’r adeiladau presennol o fewn fframwaith deallusol newydd a gofodau oriel ychwanegol ac ynddynt ddeunydd hanesyddol ac archaeolegol.

### Ailarddangos ac adnewyddu Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Mae bron ugain mlynedd wedi pasio er adnewyddu atyniad poblogaidd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, ac erbyn hyn mae angen buddsoddi yn y safle. Ein bwriad yw uwchraddio’r gwasanaethau a’r adeilad ei hun i ailarddangos y brif oriel er mwyn iddi roi dehongliad mwy ystyrlon i ymgysylltu ag ystod ehangach o ymwelwyr. Byddwn yn defnyddio technoleg ddigidol i wella mynediad y cyhoedd i gasgliadau.

### Lansio a datblygu Rhith-amgueddfa Cymru

Eleni byddwn yn lansio cam cyntaf y Rhith-amgueddfa, elfen arall ar raglen amrywiol ac eang y Canmlwyddiant. Bydd hyn yn ein galluogi i oresgyn natur daearyddol sefydlog ein safleoedd presennol, gan sicrhau bod gan gymunedau drwy Gymru benbaladr, a thrwy’r byd i gyd, fynediad cyfartal i’n hadnoddau, ac ymdeimlad o berchnogaeth o’n casgliadau cenedlaethol. Ein bwriad fydd datblygu’r adnodd yn sylweddol mewn camau pellach dros y blynyddoedd nesaf.

## Hoffem dynnu’ch sylw at ddau fater arall:

### Gwelliant parhaus i’r swyddogaeth Gofal a Mynediad i Gasgliadau a Gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol

Mae’r Cynulliad wedi bod yn gefnogol iawn drwy ddarparu nawdd i sicrhau y gall yr Amgueddfa

ofalu am y casgliadau yn yr amgylchedd mwyaf priodol a chyflawni'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni'n sylweddol ar ei hystadau. Mae gwaith ar y prosiect Gofal a Mynediad i Gasgliadau wedi hen ddechrau ac, ynghyd â gwaith cynnal a chadw hanfodol, mae'r broses wedi bod yn gatalydd i ailarddangos ein casgliadau o'r newydd mewn dull mwy deniadol, fel y disgrifir uchod. Fodd bynnag, does dim dwywaith y bydd angen mwy o nawdd i gyflawni gwaith pellach angenrheidiol er mwyn gwireddu'r weledigaeth yn llawn yn y dyfodol.

## Datrys diffyg y Cynllun Pensiwn

Un o'r materion y mae'r Amgueddfa wedi bod yn ceisio ei ddatrys dros y blynyddoedd diwethaf yw diffyg presennol ein cynllun pensiwn. Mae'r diffyg yn deillio o ostyngiad sylweddol yn y farchnad stoc rai blynyddoedd yn ôl, ac fe wnaed y sefyllfa'n waeth oherwydd tuedd y boblogaeth i fyw'n hirach. Gan fod y farchnad stoc wedi gwella, mae ein diffyg wedi lleihau, ac mae darpariaeth gwarant y goron wedi galluogi'r amgueddfa i drafod amserlen hirach gyda'n hymddiriedolwyr pensiwn i dalu'r diffyg presennol. Fodd bynnag, mae arnom angen nawdd o hyd i gyflawni hyn, ac nid ydym wedi'i dderbyn hyd yma. Hebddo mae'n bosibl y byddai'n rhaid i ni wneud penderfyniadau a allai fod yn annymunol ac a allai gael effaith niweidiol ar ein hymwelwyr a'n staff fel ei gilydd.